OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2014 Rhif 2308 (Cy. 228)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 25a (Grove Park) i Gyffordd 26 (Malpas), Casnewydd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2014

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *29 Awst 2014* |
| *Yn dod i rym* | *5 Medi 2014* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Draffordd Llundain – De Cymru (yr M4) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y draffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt neu gerllaw iddynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 14(1), (4) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 5 Medi 2014 a'i enw yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 25a (Grove Park) i Gyffordd 26 (Malpas), Casnewydd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2014.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 5 Medi 2014 ac ar unrhyw ddydd Gwener neu ddydd Sadwrn o fewn cyfnod para'r Gorchymyn hwn ac sy'n dod i ben am 06:00 o'r gloch drannoeth y diwrnod hwnnw neu pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r draffordd" ("*the lengths of the motorway*") yw:

i. y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y draffordd yn Ninas Casnewydd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 25a (Grove Park) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 26 (Malpas);

ii. y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y draffordd yn Ninas Casnewydd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 26 (Malpas) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 25a (Grove Park).

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiad**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 5, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar hyd y darnau o'r draffordd.

**Dirymu**

**4.** Mae Gorchymyn Traffordd yr M4 (Twneli Bryn-glas, Casnewydd) (Cyfyngiad a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) (Rhif 2) 2013**(3)** drwy hyn wedi ei ddirymu.

**Cymhwyso**

**5.** Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**6.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 16 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 29 Awst 2014

***RICHARD MORGAN***
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
**(3)** O.S. 2013/3271 (Cy.321)